Trydan Gwyrdd Cymru

**Eich gwahoddiad i ddigwyddiad wyneb yn wyneb**

**Ynni i ffynnu. Power to prosper.**



# Gwefr – Fferm Wynt Clocaenog Dau

Rydym yn gyffrous i groesawu cymaint ohonoch â phosibl i'n digwyddiadau ymgynghori anffurfiol cyntaf i drafod y cynlluniau ar gyfer Fferm Wynt Clocaenog Dau.

Mae'n hanfodol bwysig i ni eich bod chi, fel aelodau o'r gymuned leol, yn cael eich clywed ac yn ein helpu i lunio'r cynllun.

Yn ein digwyddiadau lleol, gallwch:

- Edrych ar fyrddau gwybodaeth
- Gweld model digidol yn dangos sut all y fferm wynt edrych
- Siarad â'n tîm



Mae **Trydan Gwyrdd Cymru** yn ddatblygwr ynni adnewyddol sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Cenhadaeth y cwmni yw dadgloi potensial ynni adnewyddol Cymru, a chyflwyno buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

Edrychwn ymlaen at eich cyfarfod yn y digwyddiadau canlynol:

| **Dydd Mawrth 14 Hydref** | **Dydd Gwener 17 Hydref** | **Dydd Sadwrn 18 Hydref** |
|---|---|---|
| 1:00yp-6:30yp | 3:30yp-7:00yp | 11:00yb-2:30yp |
| Neuadd yr Eglwys Nantglyn LL16 5PL | Ysgol Cerrigydrudion LL21 9SW | Canolfan Cae Cymro, Clawddnewydd LL15 2ND |

Hoffem glywed eich barn am ein cynlluniau cychwynnol. Llenwch ffurflen adborth ar y diwrnod neu drwy'r wefan erbyn **dydd Sadwrn 15 Tachwedd 2025** os gwelwch yn dda. (trydanclocaenogdau.cymru).

# Lansio'r tri phrosiect yng Ngogledd Cymru

Ddechrau mis Gorffennaf, cyhoeddodd Trydan Gwyrdd Cymru gynigion ar gyfer sefydlu tair fferm wynt newydd. Mae Trydan yn gweithredu er lles Cymru, gyda'r holl elw a gynhyrchir yn cael ei gadw yng Nghymru, gan gefnogi pobl Cymru, ei chymunedau, ac yn bwysig iawn, blaenoriaethau strategol cenedlaethol.

Y lleoliadau yw:

**Fferm Wynt Clocaenog Dau**
Siroedd Dinbych a Chonwy

**Fferm Wynt Glyn Cothi**
Sir Gaerfyrddin

**Fferm Wynt Carreg Wen**
Rhondda Cynon Taf



Mae Trydan yn bwriadu cynhyrchu hyd at 400MW o drydan glân, a fydd yn pweru anghenion trydan blynyddol 350,000 o gartrefi Cymru ar gyfartaledd.

Mae'n bosib i chi weld yn y cyfryngau, i ni gynnal digwyddiad lansio yng Nghanolfan Ymwelwyr Llyn Brenig, lle croesawyd rhai o'r gadwyn gyflenwi leol sydd eisoes yn cymryd rhan yn ogystal â sefydliadau allweddol eraill o'r ardal.

Dywedodd prif weithredwr Trydan, Richard Evans: *"Gyda Thrydan Gwyrdd Cymru yn gyrru datblygiad, a chyda'r elw o'r buddsoddiad yn cael ei gadw yng Nghymru, mae gennym gyfle unigryw i wneud y gorau o'r prosiectau a'r manteision lluosog a ddaw yn eu sgil.*

*"Mewn rhannau o Gymru sy'n addas ar gyfer gosod seilwaith a chan weithio gyda phartneriaid cyflenwi ar draws Cymru, byddwn yn creu ac yn cefnogi swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol o ansawdd. Bydd y rhain yn cynnwys y cadwyni cyflenwi yn y sector ynni adnewyddol ac yn cyfrannu at gynlluniau sgiliau. Bydd cymunedau'n cymryd rhan, a bydd cyllid yn cefnogi blaenoriaethau lleol.*

*"Fel datblygwr Cymreig, gallwn ymrwymo i raglenni strategol cenedlaethol, fel rheoli ac adfer cynefinoedd. Edrychwn ymlaen at weithio gyda rhanddeiliaid i ddiffinio gwelliannau uchelgeisiol, hirdymor."*

Yn y lansiad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, Rebecca Evans: *"Mae'r cynigion hyn yn dangos ein hymrwymiad i harneisio adnoddau naturiol eang Cymru i gynhyrchu ynni glân gan sicrhau bod y manteision yn cael eu profi'n lleol.*

*"Drwy ddatblygu'r prosiectau hyn ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, rydym yn gwneud y defnydd gorau o'n tir cyhoeddus i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chreu cyfleoedd economaidd cynaliadwy."*



“Mae llawer o lefydd yng Nghymru yn darparu safleoedd rhagorol ar gyfer gwynt ar y tir, ac mae’r lleoliad yma eisoes wedi profi hynny gyda Fferm Wynt Coedwig Clocaenog eisoes ar waith.

*“Gan ein bod yn awyddus i gyfrannu ymhellach at daclo newid hinsawdd, mae gwaith dichonoldeb yn dangos y gallai Fferm Wynt Clocaenog Dau ddarparu lle i hyd at 22 o dyrbinau gwynt modern, hynod effeithlon.*

*“Byddai hyn yn golygu darparu hyd at 132MW o drydan glân, sy’n cyfateb i anghenion trydan blynyddol hyd at 117,500 o gartrefi yng Nghymru ar gyfartaledd.*

*“Byddai’r tair fferm wynt arfaethedig yn cael eu datblygu’n bennaf yng nghoedwigoedd Llywodraeth Cymru, sy’n cynnwys rhai o safleoedd gorau’r wlad i gynhyrchu ynni adnewyddol.*

*“Yn bwysig iawn, mae Trydan yn gweithredu er budd Cymru’n unig, gyda’r holl elw a gynhyrchir yn cael ei gadw yma yng Nghymru.*

*“Dwi’n edrych ymlaen at fynd allan i gyfarfod â phobl leol i rannu syniadau ar sut y gallwn wneud hwn y prosiect gorau posibl i Siroedd Dinbych a Chonwy, i Ogledd Cymru, ac yn wir, i Gymru gyfan.”*

**Adam Dempsey**,
Rheolwr prosiect Fferm Wynt Clocaenog Dau



I glywed mwy am y prosiect Fferm Wynt Clocaenog Dau

## Manteision eraill y mae ein prosiectau’n ceisio eu cyflawni:


- Swyddi i bobl leol tra bod y fferm wynt yn cael ei hadeiladu, a’i gweithredu am 35 mlynedd
- Cyfleoedd i fusnesau lleol
- Cyllid cymunedol i gefnogi grwpiau a phrosiectau lleol
- Profiad gwaith a helpu i wella sgiliau a chyfleoedd addysg
- Gwella bioamrywiaeth a gwella mynediad at natur
- Dim ymyrraeth ar weithgareddau coedwigaeth cynaliadwy

## Pwy yw Trydan Gwyrdd Cymru?

Llywodraeth Cymru yw perchennog Trydan Gwyrdd Cymru ac mae’r Llywodraeth yn diffinio ein gwaith gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn goruchwylio ein gweithgareddau.

Wedi ei sefydlu ym mis Mawrth 2024 ac yn gweithredu o ganolfan ym Merthyr Tudful, mae ein tîm craidd bychan yn cynnig profiad helaeth a gwybodaeth ddofn o fewn y diwydiant ynni gwynt ledled Cymru, y DU, ac yn rhyngwladol.

Ein cenhadaeth yw datgloi potensial ynni adnewyddol Cymru, a thrwy ddatblygu’n bennaf ar dir sy’n eiddo i Lywodraeth Cymru, gallwn wneud y mwyaf o’i werth a’r adnoddau naturiol sydd ar gael.



# **Arwain gyrfaoedd:** Gweithiwr Jones Bros yn canmol manteision prosiectau gwynt ar y tir

*"Pan ges i'r cyfle i ymuno â thîm Fferm Wynt Coedwig Clocaenog gyntaf, ron i'n teimlo'n ffodus iawn, gan fod prinder swyddi yn yr ardal."*

Dyna eiriau is-asiant Peirianwyr Sifil Jones Bros, Hari Evans, wrth iddo drafod effaith y mae gweithio ar ffermydd gwynt ar y tir, gwerth miliynau o bunnoedd, wedi ei chael ar ei yrfa.

Cafodd Hari, 25, y cyfle i ddatblygu ei wybodaeth dechnegol a'i arbenigedd wrth weithio ar Fferm Wynt Clocaenog. Gan ei fod yn byw cwta pum milltir o'r safle 27 tyrbin, mae'n cofio sut brofiad oedd cael gweithio ar y prosiect.

Dywedodd: *"Roedd dod o hyd i waith yn lleol yn heriol ar y pryd, felly roedd cael fy nghyflogi, nid yn unig gyda Jones Bros, ond ar ddatblygiad mawr mor agos at adref yn wych.*

*"Mae'r cynllun, a rhai tebyg iddo, yn gwneud gwahaniaeth enfawr wrth wella'r cyfleoedd gwaith sydd ar gael i drigolion fel fi mewn cymunedau gwledig.*

*"Mi ddechreuais fel peiriannydd prosiect iau ochr yn ochr â 20 i 25 o staff eraill, a dysgais gymaint, gan gynnwys pwysigrwydd cynnal mesurau ecolegol i sicrhau bod y safle'n cael ei adael mewn cyflwr da.*

*"Roedd hyn yn golygu atal dŵr llygredd rhag rhedeg i'r amgylchedd naturiol gerllaw a sefydlu'r safle i helpu i ddal neu hidlo llygredd posib, gan amddiffyn ansawdd dŵr a chynefinoedd cyfagos."*

*Ar ôl ymuno â'r cwmni yn Rhuthun yn 2017 fel prentis uwch, un o brosiectau cyntaf Hari oedd Fferm Wynt Brenig, sydd â 16 tyrbin.*

*Gan siarad am fanteision ffermydd gwynt ar y tir o ran ennill sgiliau craidd y diwydiant, dywedodd: "O gynnal gwaith ecolegol i dywallt sylfeini tyrbinau, mae cymaint o wahanol elfennau i'r gwaith.*

*"Fel ma rydych chi'n dysgu ystod o sgiliau y gallwch eu trosglwyddo i nifer o gynlluniau, sy'n eich rhoi mewn sefyllfa dda i'r dyfodol.*

*"Dwi wedi gweld peirianwyr dan hyfforddiant yn symud ymlaen i swyddi uwch, fel rheolwyr contractau, ac mae llawer o rai eraill wedi adeiladu gyrfaoedd hirdymor mewn ynni adnewyddol, diolch i gyfleoedd fel hyn.*

*"A chyda rolau'n amrywio o gynllunwyr i dechnegwyr, mae rhywbeth at ddant pawb."*



**Hari Wyn Evans**,
Peiriannydd gyda
Pheirianwyr Sifil Jones Bros

## Amserlen ddangosol

Mae'r amserlen ddangosol hon yn rhoi trosolwg o'r broses ofalus y bydd Trydan yn ei dilyn, gyda'r nod o lunio'r prosiect gorau posibl. Gyda hyn, rydym yn golygu prosiect o'r dyluniad gorau, yn y lle iawn, i sicrhau buddion hirdymor i'r ardal leol ac i Gymru.


**2024/25**
Dichonoldeb

**Haf 2025**
Ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid

**Hydref 2025**
Ymgynghoriad anffurfiol cyntaf, cyflwyno Adroddiad Cwmpasu EIA (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) a chais cynllunio'r mast meteorolegol

**2026**
Ymgynghori pellach gan ddarparu rhagor o wybodaeth

Wedi'i leoli tua 8km i'r de-orllewin o Rhuthun, mae'r safle o fewn Cynghorau Sir Ddinbych a Chonwy.




## Y wybodaeth ddiweddaraf

Mae gennym wefan bwrpasol ar gyfer y prosiect, lle cewch hyd i ragor o wybodaeth am y datblygiad, darllen Cwestiynau Cyffredinol, a chofrestru ar gyfer y newyddlen electroneg.

trydanclocaenogdau.cymru

**2027**
Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC) a chyflwyno cais cynllunio

**Diwedd 2027/ Dechrau 2028**
Archwiliad

**Canol 2028**
Penderfyniad gan Weinidogion Cymru

**2028/29**
Dylunio manwl a chaffael

**Ar ôl 2030**
Gwaith adeiladu

**Ar ôl 2030**
Cynhyrchu pŵer glân am 35 mlynedd







Mae fideos byr Trydan ar gael yma

**Er mwyn llunio'r prosiect, dywedwch wrthym sut y gallwn sicrhau buddion lleol ac i gadw mewn cysylltiad, defnyddiwch un o'r ffurfiau isod.**

**croeso@clocaenogdau.cymru**

**01824 599500**

**trydanclocaenogdau.cymru**

Ysgrifennwch at: **Freepost OUTWRITE PR**

(nid oes angen stamp na chyfeiriad pellach)

Bydd y manylion cyswllt yma yn eich rhoi mewn cyswllt ag Outwrite PR sy'n gweithio o'r Wyddgrug. Rydym yn falch o weithio gyda Trydan er mwyn cysylltu â chymunedau lleol a chynorthwyo gyda'r broses ymgynghori. Mae ein datganiad preifatrwydd ar gael ar y wefan.

Trydan Gwyrdd Cymru

**Gyda'n gilydd gallwn harneisio'r ynni i ffynnu.**

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**

Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**

www.trydangwyrddcymru.cymru
croeso@trydangwyrddcymru.cymru